Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Y Talwrn
# Talwrn
# Llangefni
# LL77 7TG

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Talwrn

Mae Ysgol Gynradd Talwrn ym mhentref Talwrn sydd rhyw dair milltir o Langefni ar Ynys Môn.  Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.  Mae 38 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr.  Fe'i rhennir yn dri dosbarth oedran cymysg yn y boreau a dau yn y prynhawn.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 21%, sydd yn agos i'r ganran genedlaethol.  Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2017, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad gan staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau modelu yn TGCh

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod sut mae'r lleuad yn newid yn ystod y mis. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn cael pleser wrth drafod eu syniadau o fywyd mewn gorsaf ofod. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder ac yn trafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg gyda llawer yn rhoi rhesymau da ynghylch pwy yw eu hoff gymeriad. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr diolch yn dilyn ymweliad i goedwig leol. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da iawn ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae'r gwaith am longddrylliad y 'Royal Charter' yn dangos dychymyg aeddfed wrth greu darlun cyffrous o'r digwyddiad. Ar y cyfan, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn cyfrif, adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, er enghraifft wrth gyfrif faint o lygaid sydd gan nifer o estroniaid ffug. Mae llawer yn trafod gwaith graff syml yn ddeallus ac yn trin a thrafod arian yn hyderus hyd at 20 ceiniog. Mae rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau mesur yn gywir mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft wrth greu gwesty i drychfilod. Maent yn siarad am eu gwaith yn frwdfrydig ac yn barod i ddefnyddio iaith ac ymadroddion fathemategol gyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10 a 100 ac mae'r mwyaf abl yn hyderus wrth luosi at 1000. Maent yn adio a thynnu degolion yn gyson gywir hyd at ddau le. Defnyddiant ffracsiynau gyda dealltwriaeth gadarn. Gallent gyflwyno eu canfyddiad mewn modd systematig a chlir gan gymhwyso'r medrau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys problemau, er enghraifft i greu graff i ddangos natur swyddi gwahanol achubwyr yn dilyn trychineb y 'Royal Charter'.

Mae safon medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o'r angen i fod yn ofalus ac i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio llechi yn ofalus i gofnodi eu gweithgareddau ac i ddarganfod gwybodaeth benodol. Enghraifft dda yw'r gwaith am hanes y chwiorydd Massey a'u dylanwad ar wyddoniaeth fiolegol yr ardal. Gallent gyflwyno gwybodaeth yn daclus wrth greu brawddegau syml i greu llyfryn ffeithiol am greaduriaid yr ardd sy'n cynnwys lluniau ac ysgrifen addas amdanynt. Maent yn dda wrth osod cyfarwyddiadau penodol i reoli symudiadau tegan technegol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn creu ac archwilio data yn effeithiol i greu graff sy'n dangos nifer y medalau a enillwyd gan y gwahanol wledydd yng Ngemau'r Gymanwlad. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng penodol i ddangos peryglon cyfathrebu a dieithriaid tra ar y we. Mae llawer yn defnyddio codau QR yn fedrus i ddarganfod pa dasgau i'w wneud wrth chwilio am fywyd gofodwyr ar yr Orsaf Ofod Ryngwladol. Maent yn defnyddio Hwb yn effeithiol i gasglu gwybodaeth am y ras i'r lleuad yn y chwedegau. Fodd bynnag, nid yw medrau modelu technoleg a chyfathrebu wedi datblygu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae ymddygiad bron pob disgybl y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Nodwedd arbennig yw'r ffaith fod llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau mewn ffordd garedig ac annwyl ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae hyn yn cyfrannu at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn manteisio'n llawn ar y cyfle i fynegi pryder, a chynnig syniadau yn y 'blwch pryderon'.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed. Maent yn barod i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol fel pêl-droed a phêl-rwyd ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i fwyta ffrwythau yn ystod amser egwyl ac mae llawer o'r disgyblion yn magu medrau cymdeithasol da wrth gynnal y siop yn llwyddiannus yn y boreau.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol ac maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau estynedig. Yn ystod eu gwersi, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar i gyfrannu. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau dangos y gallu i wella eu gwaith yn llwyddiannus yn sgîl adborth effeithiol ac amserol gan oedolion. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn effeithiol iawn.

Mae llais y disgybl yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac mae'r trawstoriad o aelodau sydd wedi eu hethol i gyngor yr ysgol yn cyflawni eu gwaith yn fedrus. Mae'r aelodau yn dangos balchder yn y modd maent yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad Cymraeg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion, sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. Mae'r drefn o gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni safonau da. Nodwedd lwyddiannus ar draws yr ysgol yw'r rhan sydd gan rieni, gyda'u plant, i gynnig awgrymiadau a syniadau ar ddechrau pob thema am yr hyn yr hoffent ei astudio. Mae hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion tuag at ddysgu yn grefftus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymgorffori gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a TGCh yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau modelu TGCh yng nghyfnod allweddol 2.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn. Fe ddarperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol, sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn eu hannog i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn cael profiadau rheolaidd i gyfoethogi'r dysgu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u hardal a diwylliant Cymru; enghraifft o hyn yw ymweliad i amgueddfa Lloyd George a choedwig Niwbwrch.

Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog a gweithgareddau'n llifo'n bwrpasol. Mae'r athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau real. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn effeithiol, gyda phob aelod o staff yn modelu iaith yn dda iawn. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon yng nghyfnod allweddol 2 or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion fel bo'r angen. Mae athrawon yn asesu'n gywir ac yn dadansoddi deilliannau yn effeithiol i lywio'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion werthuso eu gwaith eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad gan staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae medrau moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn ac mae'r ysgol yn ystyried eu barn o ddifri; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder ac yn meithrin synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau am amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd ac mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r adnoddau allanol pwrpasol ar gyfer amseroedd egwyl a chlybiau ar ôl ysgol fel pêl-droed a phêl-rwyd yn ychwanegu at y cyfleoedd i fagu agweddau cadarnhaol y disgyblion ac yn eu hysgogi'n dda i gadw'n heini. Mae ymweliadau addysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a rhoddir cyfleoedd da iddynt gystadlu mewn eisteddfodau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn ofalus i osod targedau heriol a realistig ar gyfer y disgyblion ac i adnabod y rhai sydd angen cefnogaeth bellach. Mae'r cynlluniau datblygiad unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir ac yn ymateb i ofynion cyfredol yn dda. Maent yn cynnwys targedau synhwyrol a chamau gweithredu cynhwysfawr er mwyn cynnig cymorth ac arweiniad. Mae'r cymorthyddion dysgu yn cyfrannu'n effeithiol at gefnogi disgyblion unigol ac yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar sy'n arwain yn effeithiol at godi safonau a datblygu agweddau brwdfrydig ymysg y disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar annog y dysgwyr i gyrraedd safonau da. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i arwyddair yr ysgol, sef 'Gorau o bopeth i blant Y Talwrn, mewn byd sy'n newid o hyd'. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r modd y mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir ar gyflawniad a lles disgyblion ac mae'n sicrhau ethos cartrefol a chymuned ddysgu drefnus.

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac maent yn eu datblygu'n effeithiol a chydwybodol. Mae'r athrawon brwdfrydig yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae hyn yn helpu sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer datblygu medrau disgyblion, ac yn creu profiadau eang, ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer athrawon. Mae'r gweithdrefnau hyn yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion ac ar waith y dosbarth. Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref trwy gydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill ar brosiectau fel asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella'u gwaith a symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu.

Mae gan holl aelodau'r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu trylwyr ac eang, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella i'w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid gyfle amlwg i wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau o ran gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol, sy'n sicrhau ei fod yn offeryn defnyddiol ac effeithiol. Mae'r staff yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol; mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i roi sylw teilwng i wella safonau a lles y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn cynhaliaeth, arweiniad a hyfforddiant effeithiol. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am agweddau fel dadansoddi data, arsylwi gwersi, cyllid a diogelu plant. Maent yn paratoi adroddiadau defnyddiol yn dilyn arsylwadau, sy'n cael eu trafod gyda'r pennaeth a'r corff llawn. Mae hyn wedi gwella eu gallu i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gynnal yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol yn safonau disgyblion, yn arbennig wrth wella eu medrau darllen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2018